

## Pam dod â belaod coed yn ôl?

Bydd cynyddu niferoedd belaod coed yn cyfoethogi'n coedwigoedd ac yn helpu i adfer ecosistemau mwy cytbwys.

### Manteision eraill

Mae ymchwil wedi dangos fod niferoedd gwiwerod llwyd yn lleihau pan fydd belaod coed yn bresennol. Gall hyn fod yn fanteisiol i wiwerod coch. Mae angen rhagor o ymchwil i ddeall y berthynas rhwng y rhywogaethau hyn.

Yn yr Alban mae mwy o ymwelwyr yn awyddus i weld belaod coed. Gall hyn ddod ag incwm ychwanegol i ganolfannau ymwelwyr sy'n cynnig cuddfannau ar gyfer arsywi, ac i westai a busnesau gwely a brecwast lleol. Mae'r un math o gyfile nawr yn datblygu yng Nghymru.

## Why bring back the pine marten?

*Boosting the number of pine martens will enrich our woodland communities and help restore a balanced ecosystem.*

### Other benefits

*Research has shown that pine martens can have a negative effect on grey squirrel numbers, and this can benefit red squirrels. Further research is needed to understand the dynamics between these species.*

*In Scotland, there has been a surge in interest from visitors wanting to see pine martens. This is bringing in additional income to visitor centres offering viewing hides, as well as to local hotels and B&Bs. This opportunity is now developing in Wales.*

## Sut allwch chi helpu?

Mae'r prosiect yn cynnig cyfle i unigolion a chymunedau roi help llaw er mwyn sicrhau y bydd bele'r coed unwaith eto yn un o anifeiliaid nodweddiadol coedwigoedd Cymru. Gallwch ddarganfod sut i helpu ar wefan [www.vwt.org.uk](http://www.vwt.org.uk) neu drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

### How can you help?

*This project represents a chance for community members to help ensure that this native species will once again be a symbol of our Welsh woodlands. Find out how you can help by visiting [www.vwt.org.uk](http://www.vwt.org.uk) or using the contact details below.*

## Vincent Wildlife Trust

Ers 40 mlynedd a mwy, mae'r VWT wedi bod yn helpu gwarchod mamaliaid drwy gynnal gwaith ymchwil trwyndl a chyflawni gwaith blaengar.

*For more than 40 years, VWT has led the way in supporting the recovery of mammal species through sound scientific research and innovative approaches.*

3-4 Bronsil Courtyard, Eastnor, Ledbury HR8 1EP  
[www.vwt.org.uk](http://www.vwt.org.uk) | [enquiries@vwt.org.uk](mailto:enquiries@vwt.org.uk) | 01531 636441

Cwmni Elusennol Cyfyngedig drwy Warant Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif. 05598716  
Elusen Cofrestridog Rhif. 1112100 (Lloegr a Chymru), SC043066 (Yr Alban), 20100841 (Yr Iwerddon)  
Charitable Company Limited by Guarantee Registered in England No. 05598716  
Registered Charity No. 1112100 (England and Wales), SC043066 (Scotland), 20100841 (Ireland)  
Lluniau bele'r coed: A. Achterberg | Pine marten photos: A. Achterberg



Bringing the wild back to life



## Belaod Coed yn dychwelyd i Gymru Pine Martens return to Wales

VWT yn helpu diogelu dyfodol bele'r coed yng Nghymru  
Vincent Wildlife Trust's Pine Marten Recovery Project

Mae bele'r coed yn anifail brodorol Cymreig. Mae'n swil ac yn llawn cymeriad a bu bron iddo ddiflannu'n llwyr o gefn gwlaid Cymru.

*Charismatic, elusive and almost out of time, this native Welsh mammal had all but disappeared from the rural Welsh landscape.*



## Mamal y goedwig

Anifail y goedwig, ar y cyfan, yw bele'r coed. Mae'n gorffwys o magu mewn tyllau coed. Ei hoff fwyd yw mamaliaid bychain a ffrwythau. Mae tiriogaethau mawr gan felaod ac maen nhw'n byw fel unigolion yn bennaf, felly mae eu dwysedd yn isel.

## A woodland mammal

*The pine marten is chiefly a woodland animal, using tree cavities as breeding and resting sites. Its preferred diet is small mammals and fruit. Martens have large territories, lead largely solitary lives and therefore live at very low densities.*

## I ble'r aeth ein belaod coed?

Dirywiodd niferoedd belaod coed ym Mhrydain wrth i fforestydd gael eu clirio, ac wrth i'r arfer o hela gêm ac erlid anifeiliaid ysglyfaethus gynyddu yn y 19eg ganrif. Erbyn 1900 roedd belaod coed wedi cilio i ucheldiroedd pellennig Prydain, yn cynnwys Eryri a mynyddoedd canolbarth Cymru. Erbyn heddiw mae niferoedd da o felaod yn yr Alban ond dyw'r niferoedd ddim wedi adfer yn naturiol yng Nghymru a Lloegr. Oherwydd hyn mae camau penodol yn cael eu cymryd i wrthdroi'r sefyllfa yn ne Prydain.

## Where did they go?

*In Britain, the pine marten's historical decline was in step with forest clearance, together with the 19th century rise in game shooting and associated predator control. By 1900, the marten was confined to the more remote uplands of Britain, including Snowdonia and the Cambrian Mountains. Today, the marten is doing well in Scotland, but in Wales and England this natural recovery has not occurred and intervention is now taking place in areas of southern Britain.*



## Prosiect Adfer Bele'r Coed

Yn dilyn 30 mlynedd o waith ymchwil ar fele'r coed ym Mhrydain, mae'r Vincent Wildlife Trust wedi dod â'r anifail brodorol hwn yn ôl i ganolbarth Cymru. Ar ôl dwy flynedd o ymchwil trylwyr, gwaith cynllunio ac ymgynghori gyda chymunedau a perchnogion tir, fe drosglwyddodd y WWT 51 o felaod coed o'r Alban i ganolbarth Cymru dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r creaduriaid wedi ymgartrefu, maen nhw'n magu'n llwyddiannus ac yn ymledu ar draws gweddill Cymru. Mae bele'r coed yn ennill tir unwaith eto.

## The Pine Marten Recovery Project

*Following a 30-year history of pine marten research in Britain, Vincent Wildlife Trust has now returned this native mammal to mid-Wales. After two years of extensive research, planning and consultation with local communities and landowners, the Trust translocated a total of 51 pine martens from Scotland to mid-Wales over three years. The translocated pine martens have settled in well and are now breeding successfully and increasing their range across the rest of Wales. Their recovery is on the way.*